# CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

**HYDREF 2020**

**TGAU**
**CYMRAEG IAITH - UNED 3**
**3000N30-1**

© WJEC CBAC Cyf.

**RHAGARWEINIAD**

Defnyddiwyd y cynllun marcio hwn gan CBAC ar gyfer arholiad 2020. Penderfynwyd arno'n derfynol yn dilyn trafodaeth fanwl mewn cynadleddau arholwyr gan yr holl arholwyr oedd yn ymwneud â'r asesiad. Cynhaliwyd y gynhadledd yn fuan ar ôl sefyll y papur fel y gellid cyfeirio at yr amrediad llawn o ymatebion ymgeiswyr, gyda sgriptiau wedi'u llungopïo yn sail i'r drafodaeth. Amcan y gynhadledd oedd sicrhau bod y cynllun marcio wedi'i ddehongli a'i gymhwyso yn yr un modd gan yr holl arholwyr.

Gobeithir y bydd y wybodaeth hon o gymorth i ganolfannau ond cydnabyddir ar yr un pryd y gallai fod gan athrawon safbwyntiau gwahanol ynglŷn â manylion neu ddehongli gan nad ydynt wedi bod yn rhan o'r gynhadledd farcio.

Mae'n flin gan CBAC ond nid oes modd iddo ymgymryd ag unrhyw drafodaeth na gohebiaeth am y cynllun marcio hwn.

© WJEC CBAC Cyf.

## CYNLLUNIAU MARCIO TGAU

## CYMRAEG IAITH - UNED 3

## HYDREF 2020

**Adran A (Darllen): 30 marc**

**Darn Darllen 1**
**10 o fusnesau llwyddiannus Cymru**

**A1.** Pa **ddau** fusnes sydd wedi'u sefydlu ym Mhowys? [1]

- Brecon Carreg
- Laura Ashley

Adalw gwybodaeth

**A2**. Pa nwyddau mae Melin Tregwynt yn eu gwerthu? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Carthenni gwlân ✓

Adalw gwybodaeth

**Darn Darllen 2**
**Ffau'r Llewod**

**A3.** Pa dechneg arddull sy'n cael ei defnyddio yn y ddwy frawddeg gyntaf yn yr hysbyseb? Beth yw effaith y dechneg hon? [2]

Cwestiwn Rhethregol 1 marc

Unrhyw un o'r canlynol:
- Denu darllenwyr yr hysbyseb i fod eisiau cyflwyno'u syniadau/cymryd rhan yn y rhaglen
- Apelio at entrepreneuriaid ifanc drwy sôn am arian
- Gwneud i chi ystyried eich syniadau busnes eich hun 1 marc

Trafod arddull a gwerthuso

**A4.** Enwch **ddwy** fantais o gymryd rhan yn y rhaglen os oes gennych syniad da am fusnes. [2]

- Derbyn buddsoddiad ariannol
- Mentora gan un o aelodau'r panel (pobl fusnes fwyaf llwyddiannus Cymru)
- Cyflwyno syniadau i banel o bobl broffesiynol

Adalw gwybodaeth

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 3**
**Nwyddau Llwyddiannus**

**A5.** Mae pedwar o'r gosodiadau isod yn gywir am y nwyddau sydd wedi ymddangos ar *Dragons' Den*. Mae un ateb cywir wedi'i roi i chi'n barod. Rhowch ✓ yn y blychau gyferbyn â'r **tri** sylw cywir arall. [3]

| | |
|---|---|
| Levi Roots oedd dyfeisydd saws Reggae Reggae. | ✓ |
| Mae gwerth cwmni Tangle Teezer yn uwch na gwerth cwmni Trunki. | |
| Mae'r Tangle Teezer yn gallu rhoi trefn ar wallt sych. | ✓ |
| Cafodd y Trunki ei ddyfeisio ar gyfer plant. | ✓ |
| Derbyniodd y tri chynnyrch fuddsoddiad ar raglen *Dragons' Den.* | |
| Profodd Shaun Pulfrey lwyddiant ar ôl anfon brwsh am ddim at sêr fel Victoria Beckham. | |
| Mae Trunki ar werth mewn mwy o wledydd na'r ddau gynnyrch arall. | |
| Gwerthodd y saws Reggae Reggae yn well na'r disgwyl yn ystod ei wythnos gyntaf yn yr archfarchnad. | ✓ |

Adalw gwybodaeth a dehongli

**Darn Darllen 4**
**Cyfweliad gyda Shoned Owen**

**A6.** Beth yw ystyr yr ymadrodd "tafod-yn-y-boch"? Rhowch ✓ yn y blwch priodol. [1]

Cellweirus ✓

Trafod ystyr ymadrodd

**A7.** Yn eich barn chi, beth yw bwriad y darn hwn? Pam rydych chi'n credu hyn? [3]

- Cyflwyno gwybodaeth am yrfa fusnes Shoned Owen
- Dangos barn Shoned Owen am ba mor anodd yw llwyddo ym myd busnes
- Arddangos personoliaeth Shoned Owen

**0 marc**
Dim ateb/ateb amherthnasol

**1 marc**
Trafod bwriad yr awdur yn fras

**2 farc**
Trafod bwriad yr awdur yn dda

**3 marc**
Trafod bwriad yr awdur yn aeddfed

Trafod bwriad yr awdur

© WJEC CBAC Cyf.

**A8.** Pa fath o berson yw Shoned Owen? Sut rydych chi'n gwybod hyn? [6]

| | |
|---|---|
| Gofalus/Poeni am ei hiechyd | Rhoi'r gorau i ddefnyddio gwelyau haul oherwydd peryglon cancr y croen |
| Blaengar/Dyfeisgar | Eisiau ennill mwy o arian. Gweld bwlch yn y farchnad gan fod yr eli haul oedd ar gael yn rhy oren/ludiog/ddrewllyd |
| Trefnus | Mynd ar gwrs, dechrau busnes symudol, cofrestru'r enw a rhoi nod masnach arno, cynhyrchu cynnyrch lliw haul ffug ei hun |
| Llwyddiannus | Ennill gwobrau, mwy o fusnesau'n gwerthu'r cynnyrch bob blwyddyn |
| Parod i ddyfalbarhau/ Penderfynol | Y diwydiant harddwch ddim yn hawdd, ond Shoned wedi llwyddo i berswadio pobl i roi cynnig ar ei chynnyrch<br>Defnyddio pobl i roi'r gair ar led a'r cyfryngau cymdeithasol hefyd |
| Uchelgeisiol | Eisiau i'r brand ddod yn adnabyddus a phoblogaidd ym Mhrydain ac yn rhyngwladol |
| Gweithgar | Mynd ar gyrsiau/sefydlu busnes lliw haul symudol tra oedd hi dal yn gweithio'n llawn amser ac yn magu teulu |

Ac unrhyw beth arall sy'n berthnasol

**0 marc**
Dim ymgais i ateb y cwestiwn

**1-2 farc**
Ateb y cwestiwn yn fras gan gyflwyno ambell sylw perthnasol a dechrau dyfynnu/ cyfeirio at y darn darllen.

**3-4 marc**
Ateb y cwestiwn gyda manylder ar adegau gan ddechrau dehongli gwybodaeth a dyfynnu/cyfeirio at y darn darllen yn gyson.

**5-6 marc**
Ateb y cwestiwn yn ddeallus ac aeddfed gan ddehongli'n hyderus a dyfynnu/cyfeirio at y darn yn bwrpasol.

Dehongli

© WJEC CBAC Cyf.

**Darn Darllen 5**
**Siop Manon**

**A9.** Tanlinellwch y **ddwy** idiom yn y paragraffau isod. [2]

| |
|---|
| Cryn dipyn o syndod i ffans y gyfres deledu boblogaidd *Rownd a Rownd* oedd clywed bod un o <u>hoelion</u> <u>wyth</u> y gyfres deledu boblogaidd yn gadael.<br><br>I'r actores Manon Elis (Michelle) mae hi felly yn dipyn o <u>newid byd</u> ar ôl chwarae'r rhan oddi ar 1999.<br><br>Er nad oes llawer o amser ers i Michelle ffarwelio a diflannu oddi ar y sgrin, cafodd Manon wybod nad oedd dyfodol i'w chymeriad tua 18 mis yn ôl. |

Adnabod idiomau

**Darn Darllen 6**
**Diwedd cyfnod i gwmni Cadwyn wrth i'r sylfaenwyr ffarwelio**

**A10.** Pa **un** o'r gosodiadau canlynol sy'n gywir? Rhowch ✓ yn un o'r blychau. [1]

| | |
|---|---|
| Cafodd cwmni Cadwyn ei sefydlu yn 1974. | |
| Dechreuodd cwmni Cadwyn werthu nwyddau yn 1974. | ✓ |

Adalw gwybodaeth a dehongli

**Darnau Darllen 5 a 6**
**Siop Manon**
**Diwedd cyfnod i gwmni Cadwyn wrth i'r sylfaenwyr ffarwelio**

**A11.** Cymharwch brofiadau Manon Elis a Ffred Ffransis o fyd busnes. [8]

Gellir cyfeirio at y canlynol:

- Manon yn dechrau ar yrfa, Ffred yn dod i ddiwedd ei yrfa ar ôl 45 mlynedd
- Manon yn actores cyn hynny, Ffred yn ymgyrchydd dros yr iaith
- Sefydlu busnesau am resymau gwahanol – Manon gan ei bod wedi gadael *Rownd a Rownd* ar ôl bron i 20 mlynedd a ddim eisiau symud i dde Cymru i chwilio am waith, Ffred oherwydd ei fod eisiau gwneud bywoliaeth ar ôl cael ei ryddhau o'r carchar ond a fyddai'n caniatáu iddo barhau i weithredu gyda Cymdeithas yr Iaith
- Ffred yn sefydlu busnes er mwyn hybu'r Gymraeg, sefydlu busnes wedi bod yn freuddwyd gan Manon
- Cynnyrch *vintage*, gwaith celf ac eitemau wedi'u huwchgylchu mae Manon yn eu gwerthu yn ei siop yng Nghaernarfon tra bo Ffred yn gwerthu crefftau Cymru, rhoi negeseuon Cymraeg ar nwyddau ac yn gwerthu eitemau gan gynhyrchwyr Masnach Deg o wledydd fel Moroco
- Manon wedi profi croeso mawr gan bobl Stryd y Plas yng Nghaernarfon/busnes teuluol yw Cadwyn a bydd Hedd (mab Ffred) yn cymryd yr awenau/Manon wedi derbyn cymorth gan ei gŵr (Emlyn Gomer Roberts) a'r un oedd yn chwarae rhan ei gŵr ar *Rownd a Rownd* wrth sefydlu'r busnes i symud pethau trwm
- Hedd yn bwriadu defnyddio'r we a thechnoleg i gynyddu busnes Cadwyn ac i hyrwyddo ond Manon yn rhoi lluniau o eitemau newydd diddorol sy'n cyrraedd y siop ar *Facebook*

  Ac unrhyw beth arall sy'n berthnasol.

**0 marc**
Heb ymgeisio/ateb amherthnasol

**1-2 farc**
Gallu adalw gwybodaeth sylfaenol am y ddau ac ychydig o ymdrech i gymharu.

**3-4 marc**
Adalw gwybodaeth yn eithaf manwl gan gymharu'r ddau yn eithaf cyson.

**5-6 marc**
Ateb manwl sy'n cynnwys gwybodaeth fanwl am y ddau gan gymharu'n effeithiol. Bydd elfen o ddehongli yn amlwg yn yr ateb.

**7-8 marc**
Dethol gwybodaeth berthnasol yn ddeheuig gan ddehongli'n aeddfed a chymharu'n effeithiol.

Cymharu a dehongli

**Cwestiwn B1 a B2 (20 marc)**

| | ***CYFATHREBU A THREFN (YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)*** | ***YSGRIFENNU'N GYWIR (IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)*** |
|---|---|---|
| **Band 5** | **9-10 marc**<br>• Ysgrifennu aeddfed a threiddgar<br>• Ysgrifennu effeithiol sy'n cynnal diddordeb y darllenydd trwy gydol y darn<br>• Addasu'r cywair priodol yn hyderus i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau yn argyhoeddiadol gyda manylder, gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Adeiladwaith sicr a chydlynol; strwythur soffistigedig i'r ysgrifennu | **9-10 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa heriol ac addas yn hyderus i greu effaith neu i gyfleu ystyr benodol gywir<br>• Gafael sicr iawn ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau addas ac effeithiol<br>• Defnydd eang o gystrawennau cywir<br>• Defnydd hyderus a chywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn gywir bron yn ddieithriad<br>• Gafael sicr iawn ar dreigladau<br>• Gafael sicr iawn ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 4** | **7-8 marc**<br>• Ysgrifennu sy'n dangos yn glir y gallu i ddewis a dethol syniadau perthnasol a phriodol<br>• Ysgrifennu sy'n dangos dealltwriaeth sicr sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Addasu'r cywair yn briodol a chyson i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Datblygu syniadau gyda manylder sy'n argyhoeddi a cheir peth gwreiddioldeb a dychymyg<br>• Ysgrifennu wedi ei strwythuro'n bwrpasol a'i drefnu'n eglur i roi dilyniant rhwydd a llyfn | **7-8 marc**<br>• Defnyddio ystod eang o eirfa yn gywir<br>• Gafael sicr ar ramadeg<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau i greu effeithiau arbennig<br>• Defnyddio ystod dda o gystrawennau'n gywir<br>• Defnydd cywir o ystod o atalnodi<br>• Sillafu sicr<br>• Gafael sicr ar dreigladau<br>• Gafael sicr ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| **Band 3** | **5-6 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol a diddorol ar y cyfan<br>• Ymwybyddiaeth glir sut i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Cywair yn briodol ac yn addas ar y cyfan i'r pwrpas/cynulleidfa<br>• Syniadau sy'n dangos datblygiad a cheir rhai cyffyrddiadau diddorol yn yr ysgrifennu<br>• Gwaith trefnus sy'n rhoi dilyniant a strwythur | **5-6 marc**<br>• Defnyddio ystod dda o eirfa yn eithaf cywir<br>• Gafael gyson ar ramadeg ar y cyfan<br>• Defnyddio amrywiaeth o frawddegau<br>• Defnyddio ystod o gystrawennau'n gywir ar y cyfan<br>• Defnydd cywir ar y cyfan o ystod o atalnodi<br>• Sillafu mwyafrif y geiriau'n gywir<br>• Mwyafrif y treigladau yn gywir<br>• Mwyafrif y berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn gywir |

© WJEC CBAC Cyf.

| | *CYFATHREBU A THREFN*<br>*(YSTYR, PWRPASAU, DARLLENWYR a STRWYTHUR)* | *YSGRIFENNU'N GYWIR*<br>*(IAITH, GRAMADEG, SILLAFU AC ATALNODI)* |
|---|---|---|
| **Band 2** | **3-4 marc**<br>• Peth ysgrifennu cydlynol<br>• Peth ymwybyddiaeth o sut i greu effaith i ddal diddordeb y darllenydd<br>• Ymdrech glir i addasu cywair i bwrpas/darllenydd<br>• Datblygu rhai syniadau gydag ambell gyffyrddiad diddorol<br>• Peth trefn ar y gwaith a pheth dilyniant i syniadau | **3-4 marc**<br>• Defnyddio peth ystod o eirfa<br>• Gafael anghyson ar ramadeg<br>• Amrywio brawddegau rywfaint<br>• Peth gafael ar gystrawen<br>• Peth gafael ar ystod o atalnodi<br>• Sillafu yn eithaf cywir<br>• Treigladau yn eithaf cywir<br>• Berfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid yn eithaf cywir |
| **Band 1** | **1-2 marc**<br>• Ysgrifennu cydlynol elfennol<br>• Ymwybyddiaeth gyfyngedig o'r darllenydd<br>• Peth ymdrech i addasu cywair i bwrpas/cynulleidfa<br>• Peth cynnwys perthnasol er yn anghyson<br>• Trefn elfennol a dilyniant syml i syniadau | **1-2 marc**<br>• Ystod gyfyngedig o eirfa<br>• Gafael gyfyngedig ar ramadeg<br>• Defnyddio ystod gyfyngedig o frawddegau<br>• Gafael gyfyngedig ar gystrawen<br>• Peth ymdrech i atalnodi<br>• Sillafu rhai geiriau yn gywir<br>• Gafael gyfyngedig ar dreigladau<br>• Gafael gyfyngedig ar ferfau (amser a therfyniadau) ac arddodiaid |
| | Dim sy'n haeddu ei wobrwyo | |



© WJEC CBAC Cyf.